

Meddwl am fyd heb ...

Bu fy mam yng nghyfraith fyw hyd nes ei bod yn 97 mlwydd oed. Mae gen i wyrion sydd rhwng 9 ac 17 mlwydd oed. Os bydd i unrhyw un ohonynt fyw i weld oedran eu hen-nain (mam-gu!), ac nid yw hynny'n awgrym afresymol, pa fath o fyd fydd iddyn nhw? Neu, ac mae hwn yn syniad arswydus, a fydd yna ddaear i'w cynnal?

Mae'r Panel Newid Hinsawdd Rhyngwladol wedi rhybuddio nad oes ond deuddeng mlynedd ar ôl gennym er mwyn i ni weithredu i sicrhau nad yw cynhesu'r ddaear yn codi uwchlaw 1.5 radd Celsius ers dechrau'r Chwyldro Diwydiannol. Os bydd y ddaear yn cynhesu fwy na'r raddfa hon fe fydd sychder neu lifogydd eithafol, neu dymheredd a gwres eithafol a thlodi yn effeithio ar gannoedd o filiynau o bobl ar draws y byd.

Mae awduron yr adroddiad yn mynnu bod y cyfyngu hyn ar gynhesu'r blaned yn bosibl ond bod angen ymdrech fawr gan bawb i hyrwyddo'r amcan ac i gyrraedd y nod. Dywedwyd yn ddiweddar wrth gynhadledd fyd-eang a gynhaliwyd yn Incheol yn Ne Corea y byddai pob hanner gradd o gynhesu'n effeithio'n andwyol ar ein planed a'n gallu i fyw arno.

Nid ydym yn sôn am amgylchiadau draw yn y dyfodol pell. Mae'r materion hyn eisoes yn effeithio ar bob un ohonom ac y mae ei heriau yn real iawn i mi pan ystyriaif ddyfodol y byd fydd ein hwyrion yn byw arno.

Cawsom ein rhybuddio y gallai'r ddaear boethi gymaint fel na all pobl fyw arno o gwbl ac y bydd uchder y moroedd yn effeithio'n ddifafol ar ein byd. Mae effeithiau'r newid hinsawdd hwnnw wedi dechrau dangos ei ddannedd eisoes. Yn ôl graff sy'n edrych fel "ffon hoci," gan Syr John Houghton, mae'r darogan yn dechrau troi yn real. (Mae Syr John Houghton yn un o'r gwyddonwyr mwyaf uchel ei barch ym myd cynhesu byd-eang. Bu'n ymgyrchydd di-ildio a mynnodd ein bod yn cydnabod effaith pobl ar newid hinsawdd. Mae hefyd yn flaenor yn y Corff).

Bydd effeithiau mwyaf amlwg cynhesu byd-eang yn cael ei ganfod yng nghanol byd natur ei hun. Mae gwybed a gwynen

sy'n hanfodol ar gyfer peillio'n cnydau a phlanhigion yn ddwywaith fwy tebygol o fethu â goroesi os bydd y tymheredd yn cyrraedd 2 radd Celsius o gynhesu byd-eang. Hynny o'i gymharu â'i gallu i oroesi pe llwyddid i rwystro cynhesu y tu hwnt i raddfa o 1.5 gradd. Efallai nad yw'r trychfilod bach dinod yn ymddangos yn gyffrous iawn i ni, yn wir mae rhai yn eich gerddi yr hoffech pe byddent yn diflannu'n llwyr! Ond y gwir yw bod iechyd a bioamrywiaeth ein pridd a'n tir yn dibynnu ar eu gweithgarwch.



Oes rhywbeth allwn ni ei wneud o gwbl?

Yn wahanol i'r bobl yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd a wrthododd wrando ar y proffwydi mae angen i ni roddi sylw neilltuol i'r hyn mae proffwydi cyfoes yn ei ddweud wrthym. Mae angen i ni wrando ar eu neges. Mae angen i ni weithio gyda'r grymoedd sydd ar waith mewn cymdeithas ac annog ein harweinwyr gwleidyddol i roddi'r ystyriaeth mwy difrifol i'r pwnc. Siawns nad yw'n haeddu gymaint â hynny!

Efallai yr hoffem pe bai Duw yn ymyrryd i'n gwaredu. Ond onid oedd yr Israeiliaid yn yr Hen Destament wedi gobeithio y byddai hynny'n sicr o ddigwydd iddyn nhw? Ac eto aethant i Fabilon i gaethiwed. A chanfuwyd bod Duw yn bresennol hyd yn oed yn y gaethglud. Efallai bod geiriau'r Salmydd "Fy Nuw, Fy Nuw, paham y'm gadewaist," yn weddi sy'n adleisio'n ein calonnau ninnau heddiw.

Diau y bydd wynebu'r heriau hyn yn ein

dychryn a'i mawredd yn ein llesteirio rhag gwneud dim. Efallai y byddwn yn dweud bod yr heriau'n rhy fawr i unigolion wneud unrhyw wahaniaeth.

Ond mae yna nifer o bethau bach y gall bob un ohonom ei wneud bydd ag effeithiau pellgyrhaeddol. Os ewch chi at wefan Cymorth Cristnogol, er enghraifft, byddwch yn canfod lluo o awgrymiadau ymarferol.

Y mae gennym ninnau o fewn y Corff Banel Amgylcheddol o fewn y Corff sydd wedi cyfarfod eisoes ac fe fydd yn adrodd yn ôl gydag awgrymiadau am y fath o newidiadau y gallwn ni eu gwneud er mwyn lleihau allyriannau carbon yn ein cartrefi a'n heglwysi. Yn ddiweddar lansiwyd ymgyrch "Big Shift" er mwyn annog banciau i beidio â buddsoddi mewn cwmnïau sy'n llosgi tanwydd ffosil.

Efallai bod rhai ohonoch eisoes wedi ceisio gweithredu mewn ffordd sy'n fwy caredig i'r amgylchedd.

Tybed, er enghraifft, faint ohonom sy'n dechrau trefnu'n teithiau gan feddwl am ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus gan ddefnyddio bysiau a threnau i gyrraedd pen ein taith. Rwyf wedi ceisio gwneud hyn gymaint fyth ag y medrwn yn

ystod tymor fy llywyddiaeth. O ran gwybodaeth os ydych am deithio o'r orsaf drenau i'r Swyddfa yng Nghaerdydd mae bysiau'n teithio'n gyson o Heol y Santes Fair (rhif 132, 23, 24 os oes gennych ddi-ddordeb!) tuag at bentref yr Eglwys Newydd.

Y mae Duw wedi rhoi'r blaned hardd hon i ni. Pelen fregus ydyw sy'n troelli ac yn symud drwy'r gofod. Mae'n fregus ac yn hardd ac yn cynnal bywyd. Tybed ai'n cenhedlaeth ni fydd y genhedlaeth a ymatebodd i'r her i'w amddiffyn neu ai ni fydd y rhai a gaeodd eu clustiau a gwrthod gweithredu pan gawsom ein rhybuddio?

Roedd negeseuon y proffwydi bob amser yn heriol. Nid pwnc ar gyfer Astudiaeth Feiblaidd neu bwnc i'w drafod yw hwn. Mae'n neges ddifrifol. Mae'n fater sydd angen ein hymateb iddo, heddiw.

Brian Matthews,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol.